**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1242
Ein cyf/Our ref EM/03811/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

11 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref ynglŷn â Deiseb P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar ichi am roi copi o sylwadau a chwestiynau dilynol Ms Hale imi, ac rwy'n rhoi sylw i rai o'i phwyntiau isod.

Rwyf wedi bod yn glir fy mod yn disgwyl i GIG Cymru sicrhau bod menywod yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a chynhyrchu'r Cynllun Iechyd Menywod. Rwy'n falch fod yr arolwg o iechyd menywod, a lansiwyd gan Judith Paget, Prif Weithredwr y GIG, ar 5 Awst, wedi denu bron 4,000 o ymatebion unigol gan fenywod a merched rhwng 16 ac 85 oed. Mae eu hymatebion wedi darparu cyfoeth o fanylion am y materion a'r pryderon sy'n effeithio ar fenywod a'u hiechyd yng Nghymru, a bydd hyn yn galluogi'r GIG i nodi'r prif themâu a materion y mae'n rhaid i'r gwasanaeth eu targedu wrth ddatblygu Cynllun Iechyd Menywod.

Mae'r GIG wedi cyhoeddi cam cyntaf y Cynllun Iechyd Menywod. Rwy'n disgwyl i'r GIG adeiladu ar y cam hwn o'r gwaith, gan barhau i gydweithio â menywod wrth lunio a gweithredu Cynllun Iechyd Menywod deng mlynedd dros y misoedd nesaf. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sicrhau bod sylwadau Ms Hale yn cael eu hanfon ymlaen at Gydweithrediaeth y GIG er mwyn eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.